# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 7

CYMUNEDAU A CHYNGHORAU CYMUNED

## PENNOD 6

PWERAU CYNGHORAU CYMUNED I HYBU LLESIANT

### 126 Pwerau cynghorau cymuned i hybu llesiant

(1) Yn adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (ystyr "local authority" yn Rhan 1 o'r Ddeddf honno), ar ddiwedd is-adran (1)(b) mewnosoder "or a community council".

F1(2) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

F1(3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 126(2)(3) wedi ei hepgor (1.11.2021) yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(7), **Atod. 3 para. 5**; O.S. 2021/231, ergl. 4(c)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 126 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(c)**

### 127 Addasiadau i ddeddfiadau sy'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad os ydynt o'r farn bod y deddfiad yn atal neu'n rhwystro'r cynghorau cymuned rhag arfer eu pwerau o dan adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (hybu llesiant).

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/11/2021.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, PENNOD 6. (See end of Document for details)*

(2) Caniateir arfer y pŵer o dan is-adran (1)—
(a) mewn perthynas â phob cyngor cymuned,
(b) mewn perthynas â chynghorau cymuned neilltuol, neu
(c) mewn perthynas â disgrifiadau neilltuol o gyngor cymuned.

(3) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer i wneud addasiadau i ddeddfiad am gyfnod neilltuol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 127 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(c)**

## [F2]128 Darpariaeth drosiannol

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Diwygiadau Testunol**

**F2** A. 128 wedi ei diddymu (1.4.2016) gan Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2), a. 56(2), **Atod. 4 para. 31**; O.S. 2016/86, ergl. 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 128 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 178(2)(c)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/11/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, PENNOD 6.